

# Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019

GIG CYMRU
NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys

Cyflwyniad a Chyd-destun ........ 3
Uchafbwyntiau, Canlyniadau a Materion Allweddol ........ 4
Cefnogi ac ymgysylltu â'n staff ........ 5
Caffael Cynaliadwy ........ 6
Datblygu ein Stad ........ 7
Ein Rhaglen Cynaliadwyedd Amgylcheddol ........ 8
Cefnogi Cyrff Cyhoeddus Eraill yng Nghymru ........ 9
Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6 ........ 110
Astudiaethau Achos ........ 1**Error! Bookmark not defined.**

Am ragor o wybodaeth ynghylch cynnwys yr adroddiad hwn, anfonwch e-bost at Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: publichealth.sustainability@wales.nhs.uk

# Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o'r 11 sefydliad sy'n ffurfio GIG Cymru.  Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddolebau iechyd i bobl Cymru.  Gallwch ddarllen mwy am y sefydliad, gan gynnwys ein hymateb i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, yn yr Adroddiad Blynyddol. https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/adroddiad-blynyddol/


Mae'r sefydliad sydd â stad o 59 eiddo ledled Cymru, yn gorff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Gan nad yw ICC yn aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, caiff ein gwaith â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gynnal drwy Dimau Iechyd Cyhoeddus Lleol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i alluogi mwy o gydweithio, ychwanegu gwerth at ffyrdd presennol o weithio, a chefnogi dull ar y cyd i gyflawni nodau llesiant priodol.

Mae gan ein cynllun bioamrywiaeth, ***'Gwneud Lle i Natur'***, bum maes gweithredu er mwyn i'r sefydliad gefnogi natur: Cefnogi ac ymgysylltu â'n staff; Caffael cynaliadwy; Datblygu ein Stad; Ein Rhaglen Cynaliadwyedd Amgylcheddol; a, Chefnogi Cyrff Cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Yn ogystal â'r pum maes gweithredu, mae ein cynllun yn amlygu sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy'r pum ffordd o weithio, i ddatblygu'r ddogfen, ac yn dangos sut mae'r camau gweithredu yn cyfrannu at Gynllun Adfer Natur Cymru a saith Blaenoriaeth Strategol/Amcan Llesiant y sefydliad (isod).

Caiff cynllun bioamrywiaeth  Iechyd Cyhoeddus Cymru (a'r gwaith o adrodd arno) ei noddi a'i oruchwylio gan Uwch Dîm Rheoli'r sefydliad.



# Uchafbwyntiau, Canlyniadau a Materion Allweddol


- Mudiad/ymgyrch staff 'Ni yw'r Newid' ar gyfer newid ymddygiad ar lefel yr unigolyn, gydag adnoddau ar nifer o themâu cynaliadwyedd amgylcheddol

- Gwaith ar y gweill ar draws pum maes cynllun bioamrywiaeth y sefydliad >>

- Ystod o waith i gefnogi cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i gefnogi bioamrywiaeth

- Nifer o astudiaethau achos, gan gynnwys pedwar a amlygir yn yr adroddiad hwn

## Cynllun Bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru



# Cefnogi ac Ymgysylltu â'n staff

Ym mis Rhagfyr 2019, byddwn yn cynnal sesiwn cinio a dysgu i'n staff gyda Bwyd Caerdydd i hyrwyddo cynaliadwyedd bwyd a lleihau gwastraff. Bydd yn cynnwys defnyddio Skype ar gyfer Busnes ar gyfer cydweithwyr ledled Cymru. Mae ein Tîm Iechyd a Llesiant Staff hefyd wedi darparu cefnogaeth ar gyfer 'Cysylltiadau Llesiant' – hyrwyddwyr iechyd a llesiant staff ar draws y sefydliad – sy'n dymuno gweithio ar yr agenda cynaliadwyedd.

Mae'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi cyhoeddi ac yn hyrwyddo ystod o e-ganllawiau i ddarparu camau cynaliadwy i staff y gall pawb eu cymryd i sicrhau mai 'Ni yw'r Newid' o ran nodau llesiant Cymru. Mae'r adnoddau hyn yn targedu newid ymddygiadol ar lefel yr unigolyn yn y gweithle, ac nid oes angen i reolwyr eu cymeradwyo. Mae'r canllawiau yn ymdrin ag achosion pryder yng Nghymru ac yn fyd-eang, yn cynnwys teithio cynaliadwy, lleihau ynni a gwastraff, trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau cynaliadwy, Masnach Deg, a lleihau plastigau.

I ategu'r e-ganllawiau, rydym hefyd wedi creu 'Her Nodau Llesiant Cymru', sy'n herio staff i saith niwrnod (neu fwy) o fodelu ymddygiad cynaliadwy, gan ddewis rhwng deiet sy'n seiliedig ar blanhigion, lleihau gwastraff, teithio gwyrdd, ffasiwn araf, defnyddio deunydd moesol a chefnogi bywyd gwyllt.

Mae'r sefydliad wedi trefnu digwyddiadau 'Gweithredu' i roi cyfleoedd unigryw i staff fodelu ymddygiad/au 'Ni yw'r Newid' penodol. Mae gweithgareddau hyd yn hyn wedi cynnwys ymweliadau aml-ffydd, sesiynau cyflwyno Iaith Arwyddion Prydain, cyfnewid dillad, a grwpiau casglu sbwriel (gweler yr astudiaethau achos).

Caiff yr adnoddau eu llywio hefyd gan ffynonellau cyngor allanol, er enghraifft 'Buddsoddi yn Natur Cymru' (CGGC), a'r 'Gallu i Greu', gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys diogelwyr taith ar gyfer 'Cymru gydnerth'.

# Caffael Cynaliadwy

Rydym wedi adolygu ein trefniadau caffael ar gyfer papur a byddwn yn newid i ddefnyddio papur o fforestydd cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys gweithio â'r adran gaffael i sicrhau mai dim ond papur o ffynonellau cynaliadwy y gellir ei gaffael ar draws y sefydliad. Hefyd, fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gweithio ag arweinwyr busnes cyfarwyddiaethau i leihau argraffu a'r defnydd o bapur ar draws y sefydliad.


Rydym yn gweithio gyda'n grŵp 'Hyrwyddwyr Caffael' mewnol i ofyn am bapur o ffynonellau cynaliadwy drwy gontract argraffu allanol y sefydliad (ar gyfer argraffu cyhoeddiadau, er enghraifft), ac yn annog cydweithwyr i leihau nifer y copïau sy'n cael eu hargraffu'n drwy weithio ag arweinwyr busnes cyfarwyddiaethau.



Bydd Tîm Iechyd a Diogelwch Stadau yn sicrhau y bydd cyflenwadau glanhau corfforaethol yn y dyfodol yn fioddiraddadwy. Mae'r gwaith o ddod o hyd i gyfleoedd pellach i gaffael nwyddau sy'n fioddiraddadwy a/neu sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailddefnyddio/ailgylchu (gan gynnwys caffael yn lleol), yn ogystal â lleihau'r angen lle bo modd, hefyd yn cael ei ddatblygu drwy grŵp yr Hyrwyddwyr Caffael ac arweinwyr busnes cyfarwyddiaethau.

Ffocws allweddol i'r grŵp Hyrwyddwyr Caffael yw sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn trefnu a chyflwyno cyfarfodydd a digwyddiadau cynaliadwy mewn lleoliadau allanol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys defnyddio e-ganllaw 'Cynaliadwyedd ar yr Agenda' Ni yw'r Newid i lywio'r gwaith, sy'n argymell camau cynaliadwy y gellir eu cymryd gan bob aelod o staff i gyfrannu at nodau llesiant Cymru. Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd (a heriau) o ran cael gafael ar wisgoedd staff sydd wedi'u cynhyrchu â ffabrigau cynaliadwy.

Mae'r maes gweithredu hwn ar fioamrywiaeth yn cyfrannu at y nodau canlynol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru:



# Datblygu ein Stad


Rydym yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i annog bioamrywiaeth ar draws y stad. Enghraifft o hyn yw prosiect ‘Y To Gwyrdd/Veg on the Ledge’ yn Rhif 2 Capital Quarter, Caerdydd (gweler yr astudiaethau achos).

Mae’r prosiect wedi ennyn diddordeb ar gyfer menter debyg sef ‘Y Gwrych Gwyrdd/Veg in the Hedge’ yn Nhŷ Matrics, Abertawe ers gwanwyn 2020.

Bydd Tîm Iechyd a Diogelwch Stadau hefyd yn sicrhau bod datblygiadau a gwaith cynnal a chadw’r stad yn y dyfodol yn defnyddio paent sy’n isel o ran gwenwyn ac allyriadau.



Mae’r maes gweithredu hwn ar fioamrywiaeth yn cyfrannu at y nodau canlynol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru:



# Ein Rhaglen Cynaliadwyedd Amgylcheddol



Gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy raglen cynaliadwyedd amgylcheddol mewnol, yw bod yn sefydliad cynaliadwy, sy'n amddiffyn ac yn gwella ein hamgylchedd. Mae gwaith cyfredol tuag at gyflawni canlyniadau tymor byr (2020), tymor canolig (2024), a hirdymor (2030) y rhaglen yn cynnwys:

- Parhau i ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol drwy bum ffrwd gwaith y rhaglen: 'Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu', 'Teithio Gwyrdd', 'Monitro a Gwerthuso', 'Adeiladau, Ynni a Gwastraff', a 'Lleihau Plastigau'.
- Lleihau ôl-troed carbon y sefydliad, gan gynnwys defnyddio ein mudiad newid ymddygiad ar lefel yr unigolyn, 'Ni yw'r Newid' (gweler maes 1 uchod).
- Hyrwyddo lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys gwastraff bwyd.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r effaith ar yr amgylchedd drwy osod gwaelodlin o ran y data amgylcheddol sydd ar gael i ni, a gweithio i nodi a chywiro unrhyw fylchau o ran monitro data amgylcheddol yn effeithiol ar gyfer y sefydliad cyfan.
- Parhau i ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd ar draws ein sefydliad drwy benodi, hyfforddi a chaffael, datblygu strwythurau gwaredu gwastraff, creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer teithio gwyrdd, a mynd i'r afael â rhwystrau diwylliant sefydliadol.
- Cyflawni achrediad safonau rhyngwladol o ran rheoli amgylcheddol ac ynni

Mae'r maes gweithredu hwn ar fioamrywiaeth yn cyfrannu at y nodau canlynol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru:

1 Embed biodiversity in decision-making at all levels

2 Safeguard key habitats and species

3 Increase ecosystem resilience

4 Tackle key pressures

5 Improve evidence and understanding


6 Governance and support for delivery

# Cefnogi Cyrff Cyhoeddus Eraill yng Nghymru

Ym mis Ionawr 2019, gan weithio â Cyfoeth Naturiol Cymru, cyflwynwyd seminar (yn Ysbyty Athrofaol Llandochau) ar gyfleoedd i gynyddu mynediad at fannau gwyrdd ar neu'n agos at dir GIG Cymru, i Gyfarwyddwyr Cynllunio GIG Cymru, Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwyr Stadau, ochr yn ochr â rhanddeiliaid ehangach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cynhyrchu e-ganllaw i gefnogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru gydymffurfio â'r Dyletswydd Bioamrywiaeth. Gellir cyrchu adroddiad y digwyddiad a'r e-ganllaw ar wefan Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://www.publichealthnetwork.cymru/cy/cymerwch-ran/past-event/seminar-on-green-space-in-nhs-wales/

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, gyda'r bwriad o alluogi mwy o gydweithio, ychwanegu gwerth at ffyrdd presennol o weithio a chefnogi dull ar y cyd o ran cyflawni nodau llesiant priodol. Datblygwyd cynllun gwaith drafft gan grŵp llywio dwyochrog, a fydd yn cael ei gwblhau a'i gyfathrebu yn y misoedd nesaf.

Rydym wedi datblygu pecyn cymorth Ni yw'r Newid i gefnogi sefydliadau eraill (yng Nghymru ac yn




rhyngwladol) i hyrwyddo camau cynaliadwy Ni yw'r Newid i gyfrannu at nodau llesiant Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (nodau byd-eang). Rydym hefyd yn cynhyrchu 'Pecyn Cymorth Her Nodau Llesiant' fel adnodd i gyrff cyhoeddus herio'u staff i saith niwrnod (neu fwy) o fodelu un neu fwy o'r ymddygiadau cynaliadwy (gweler maes un).

Mae e-ganllaw Ni yw'r Newid newydd wrthi'n cael ei gynhyrchu i annog a darparu camau cynaliadwy i staff mewn awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gefnogi cyflawni cynllun bioamrywiaeth eu sefydliad (dan Ddyletswydd Adran 6). Bydd y canllaw cyhoeddedig yn cael ei gymeradwyo ar y cyd â phartneriaid, yn cynnwys


Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, a'i gynnal ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fel adnodd i sefydliadau a chynghorau tref ledled Cymru.

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd – Goblygiadau Lleihau Gwastraff, Ailddefnyddio ac Ailgylchu mewn Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru i Iechyd y Cyhoedd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru a'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd) wedi cynnal yr asesiad o'r effaith ar iechyd er mwyn rhoi trosolwg o'r effeithiau ar Iechyd y Cyhoedd (cadarnhaol a negyddol) o ganlyniad i ailffocysu ymdrechion y 44 Corff Cyhoeddus yng Nghymru i flaenoriaethu lleihau gwastraff ac ailddefnyddio, tra'n parhau i wneud cynnydd rhagorol o ran ailgylchu. Defnyddiwyd adroddiad Asesu'r Effaith ar Iechyd i sicrhau bod effeithiau posibl wedi'u hystyried trwy 'lens' penderfynyddion ehangach iechyd, ac i asesu effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol o'r boblogaeth. Mae'r adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gofyn i Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o ganlyniad i Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn archwilio goblygiadau Newid yn yr Hinsawdd i iechyd y cyhoedd drwy lens penderfynyddion cymdeithasol iechyd, yr effaith ar grwpiau poblogaeth allweddol ac anghydraddoldebau. Bydd y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o ystod o sectorau yng Nghymru. Mae'r adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn Hydref 2020.

Mae'r maes gweithredu hwn ar fioamrywiaeth yn cyfrannu at y nodau canlynol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru:



# Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6

Gan fod cynllun bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2019, ni fydd yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r adroddiad hwn ar hyn o bryd. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu, ac unrhyw newidiadau'n cael eu hymgorffori mewn cynllun diwygiedig, fel rhan o'r broses o gyfrannu at adroddiad blynyddol y sefydliad (gan gynnwys sicrhau bod y cynllun bioamrywiaeth yn cyd-fynd â'r gwaith o adrodd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

# Astudiaethau Achos

## Rhaglen 'Ein Gofod'

Symudwyd dros 500 o'n pobl i adeiladau yng Nghaerdydd, a thros 100 yn rhagor i adeiladau yn Abertawe a Mamheilad. Canolbwyntiodd astudiaeth achos a gynhaliwyd gan WRAP Cymru, ac a gyhoeddwyd mewn canllaw Ewropeaidd ar gyfer arfer da cynaliadwy, ar y dull llwyddiannus hwn o fabwysiadu egwyddorion economi gylchol. Bydd dull tebyg yn cael ei fabwysiadu fel rhan o gam nesaf rhaglen 'Ein Gofod Ni' a fydd yn edrych ar y stad a'r modd yr ydym yn gweithio yng Ngogledd Cymru.



https://wrapcymru.org.uk/sites/files/wrap/Iechyd%20Cyhoeddus%20Cymru.pdf

## ‘Y To Gwyrdd/Veg on the Ledge’

Mae staff yn swyddfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Rhif 2 Capital Quater, Caerdydd wedi sefydlu prosiect garddio o’r enw ‘Y To Gwyrdd/Veg on the Ledge’. Bwriad y grŵp yw:

- Creu hafan werdd i staff, ymwelwyr a bywyd gwyllt ar falconi’r 6ed llawr
- Gwella llesiant meddyliol staff ac ymwelwyr drwy ddarparu amgylchedd dymunol i glirio’r pen a chysylltu â natur



- Plannu blodau a phlanhigion i ddenu pryfed a bywyd gwyllt lleol, yn cynnwys gwenyn a pheillwyr eraill

Gan ddefnyddio grant bach ar gyfer llesiant gweithwyr, aethpwyd ati i brynu hadau a phridd gyda phwyslais ar blanhigion amlswyddogaethol sy’n hawdd eu cynnal: perlysiau aromatig, planhigion bwytadwy a deniadol sy’n darparu bwyd i beillwyr.

Gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, mae’r grŵp wedi defnyddio potiau ac offer a gafwyd fel rhoddion gan gydweithwyr ar draws y sefydliad, yn ogystal â manteisio i’r eithaf ar wefannau megis https://uk.freecycle.org/ a threfnu gwerthiannau mewnol i godi arian.

Ymhlith y llwyddiannau cynnar mae courgettes, mefus a thomatos wedi’u tyfu o hadau. Mae staff wedi mwynhau casglu lafant a mintys i wneud te llysieuol a chasglu perlysiau ffres ar gyfer salad. Mae’r grŵp hefyd yn gweithio ar y cyd â ‘Bwyd Caerdydd’ fel rhan o’r ymgyrch i wneud Caerdydd yn ‘Ddinas Llysiau’ gyntaf Cymru https://foodfoundation.org.uk/veg-pledges/

## ‘Ffair Gyfnewid’ >

Trefnwyd sesiynau ‘Ni yw’r Newid’ yn ystod amser cinio i gydweithwyr gyfnewid dillad a chyfwisgoedd diangen am eitemau newydd, 'ail-law'. Cododd digwyddiad ‘Ffair Gyfnewid’, a gynhaliwyd yn Nhŷ Matrics (Abertawe) a Capital Quarter (Caerdydd), ymwybyddiaeth o effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ‘ffasiwn cyflym’ a dangosodd sut y gellir newid arferion siopa a symud tuag at ‘ffasiwn araf’ i leihau ein ôl-troed carbon.







## < ‘Grŵp Casglu Sbwriel’

Law yn llaw ag ymgyrch ‘Carwch eich Cartref’ Cyngor Caerdydd, mae staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymryd rhan mewn sawl sesiwn grŵp casglu sbwriel ar hyd Camlas Gyflenwi’r Dociau at Ddoc Dwyrain Bute yng Nglanfa’r Iwerydd, Caerdydd.

[https://www.keepcardifftidy.com/cy/carwch-eich-caerdydd/](https://www.keepcardifftidy.com/cy/carwch-eich-caerdydd/)